Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

Negeseuon Allweddol

O'r cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau, 25 Mawrth 2021

- Cafwyd munud o dawelwch i dalu teyrnged i Christopher Pearson (BIPBC) a Mark Jones, (CBSW), cydweithwyr yr oedd gan bawb feddwl uchel ohonynt. Tynnodd y Cadeirydd sylw at eu cyfraniad eithriadol i'r maes diogelu a'u hymrwymiad i ddiogelu pobl ddiamddiffyn ac fe gytunwyd y bydd colled fawr ar eu hôl.

- Derbyniodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan bob asiantaeth mewn perthynas â'r gweithgarwch diogelu parhaus yn ystod pandemig Covid-19, yn trafod materion a themâu sy'n codi, ynghyd â thrafodaethau ynghylch addasrwydd a chydweddoldeb y platfformau TG sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd.

- Bydd Cynllun Busnes Strategol Byrddau Diogelu Gogledd Cymru yn cael ei gyhoeddi ar wefan BDGC erbyn 31 Mawrth 2021 yn unol â'r terfynau amser a nodwyd yn Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.

- Nodwyd bod y cwestau mewn perthynas ag Ymgyrch Jasmine wedi dod i ben. Byddai nodyn atgoffa o'r argymhellion o'r adolygiad dilynol gan Dr Margaret Flynn, 'Chwilio am Atebolrwydd', yn cael ei gyhoeddi ar wefan BDGC.